

Arolygiad Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu (Dirybudd)

**Ysbyty New Hall: Mental
Healthcare UK**

Dyddiad arolygu: 16 – 18 Mai 2016

Dyddiad cyhoeddi: 22 Awst 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Methodoleg.....	5
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	7
4. Crynodeb.....	8
5. Canfyddiadau	10
Safonau Craidd	10
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	21
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	22
6. Y Camau Nesaf	23
Atodiad A.....	24

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflwyno'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Y dull o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr cymheiriaid a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr sydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad iechyd meddwl ac anableddau dysgu dirybudd ag Ysbyty New Hall gyda'r nos ar 16 Mai a thrwy'r dydd ar 17 a 18 Mai 2016.

Mae Ysbyty New Hall yn ysbyty annibynnol a gofrestrwyd am y tro cyntaf gydag AGIC ym mis Ebrill 2002. Ar adeg ein hymweliad, roedd yr ysbyty wedi'i gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer 32 o gleifion. Mae'r ysbyty wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth seiciatrig ar gyfer oedolion gwrywaidd gan gynnwys y rhai sy'n debygol o gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom gynnal adolygiad o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar yr ymadweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, un adolygydd lleig, a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Gwnaeth ein hymweliad ag Ysbyty New Hall amlygu rhai arferion nodedig, gan gynnwys y canlynol:

- y gydberthynas dda a welwyd rhwng cleifion a staff
- y lefel uchel o forâl ymhlith y grŵp staff
- roedd y grŵp cleifion yn gadarnhaol iawn o ran y staff a'r gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu derbyn
- roedd y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio'n dda, gan arddangos parch rhwng y naill a'r llall a gwerthfawrogiad o safbwyntiau pob disgyblaeth
- roedd nifer o fentrau cadarnhaol amlwg yn gysylltiedig ag adferiad, gan gynnwys grŵp ffordd o fyw a grŵp camddefnyddio sylweddau
- y ffordd gadarnhaol yr oedd staff yn croesawu'r broses arolygu
- y lefel dda o gymorth eiriolaeth a dderbyniwyd gan gleifion
- roedd yr holl staff y buom yn siarad â nhw yn sôn am dîm rheoli cefnogol a oedd yn gwrando ac yn croesawu'r syniadau a gyflwynwyd iddynt
- roedd y rhaglen ailwampio yn gadarnhaol iawn drwy'r ysbyty cyfan
- roedd gan gleifion fynediad da at nifer o therapïau a gweithgareddau gan gynnwys therapi galwedigaethol a seicoleg (yn seiliedig ar angen)
- roedd prosesau ar waith ar gyfer goruchwyliaeth reolaidd, arfarniadau blynyddol, nodi anghenion hyfforddiant unigol, a darparu hyfforddiant angenrheidiol.

Er gwaethaf yr arfer da a nodwyd gennym, gwelsom rai meysydd sydd angen eu gwella. Ceir rhestr lawn o'r gofynion yn Atodiad A yr adroddiad hwn, ond mae crynodeb o'r meysydd a nodwyd gennym y mae angen eu gwella yn cynnwys:

- mae angen cael unigolyn penodedig sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros yr ysbyty cyfan yn ystod sifftiau gyda'r nos/y nos
- nodwyd nifer o faterion pan adolygwyd dogfennau cleifion gennym, gan gynnwys diffyg manylder yng nghofnodion y tîm amlddisgyblaethol a ysgrifennwyd â llaw a diffyg llofnodion, dim cynlluniau gofal ar gyfer cleifion sydd â diabetes er gwaethaf y ffaith bod hyn wedi'i nodi fel problem, a thystiolaeth ddogfennol gyfyngedig bod y drefn feddyginiaeth wedi cael ei thrafod gyda rhai cleifion

- nid oedd y ffurflenni arsylwi ac ymgysylltu ar Ward Glaslyn yn cael eu llofnodi'n rheolaidd gan y nyrs a oedd yn gyfrifol am y ward
- nid oedd system larwm galw am nyrs ar wardiau Adferiad na Chlwyd (a nodwyd hyn ym mis Hydref 2014)
- roedd sawl un o'r paneli gwydr ar ddrysau'r ystafelloedd gwely ar agor ac nid oedd modd o'u rheoli gan gleifion o tu mewn i'r ystafell
- gellir gweld y bwrdd gwybodaeth i gleifion sydd o fewn swyddfa'r nyrsys ar Ward Clwyd o'r coridor cyfagos ac mae angen gorchuddio'r bwrdd i sicrhau nad yw'r wybodaeth hon yn weladwy
- nid oedd y synhwyrdd golau allanol yn y man ysmygu diogel ar Ward Glaslyn yn gweithio
- roedd y man ysmygu allanol ar Ward Glaslyn yn llawn bonion sigaréts ac mae angen ei lanhau
- gwelsom eitemau bwyd yn oergell y gegin adferiad ar Ward Clwyd a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad olaf bwyta, ac mae angen cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau y gellir defnyddio bwyd sy'n cael ei storio a'i fwyta'n ddiogel
- ar ward Glaslyn, gwnaethom nodi nifer o gofnodion gweinyddu cyffuriau i gleifion a labeli ar focsys meddyginiaeth unigol nad oeddent yn cyfateb
- er gwaethaf y lefel dda o systemau a phrosesau llywodraethu lleol a oedd ar waith, ni welwyd llawer o dystiolaeth o weithdrefnau llywodraethu a oedd yn ystyried y sefydliad yn ei gyfanrwydd.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Mae ysbyty annibynnol New Hall yn wasanaeth 32 gwely ar gyfer dynion yn unig sy'n cynnwys tair ward, gan gynnwys uned diogelwch isel a adeiladwyd yn bwrpasol. Mae'r ysbyty wedi'i amgylchynu gan diroedd mawr sy'n cynnwys coed aeddfed ac fe'i lleolir yn agos i bentref Rhiwabon, ger Wrecsam.

Ers ein hymweliad diwethaf ym mis Hydref 2014, gwnaethpwyd gwaith ailwampio helaeth. Roedd y dderbynfa newydd yn darparu derbynfa ysbyty bwrpasol yn ogystal â mynediad at nifer o ystafelloedd cyfarfod.

Ward Adferiad

Mae Ward Adferiad yn ward adsefydlu agored a chanddi wyth o welyau. Lleolir y ward ar y llawr daear ac roedd yn cynnwys nifer o fannau i gleifion, gan gynnwys ystafell weithgareddau, lolfâ gymunedol, a chegin ac ystafell fwyta. Roedd gan gleifion ar wardiau Adferiad a Chlwyd fynediad at rai o'r cyfleusterau a rennir.

Roedd gan yr ystafell weithgareddau gyfrifiadur a chonsol gemau y gellid eu defnyddio ar unrhyw adeg. Ar ben hyn, roedd llyfrau a deunyddiau celf a chrefft, yn ogystal â phosau i'w defnyddio.

Roedd y gegin a'r ystafell fwyta yn cynnwys digon o fyrddau a chadeiriau i alluogi pawb i fwyta gyda'i gilydd.

Roedd y gegin adsefydlu yn fodern ac yn cynnwys y cyfarpar a'r offer tŷ sydd eu hangen i gleifion gael paratoi a choginio eu bwyd eu hunain. Roedd yr oergell yn cynnwys cynhyrchion a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad olaf bwyta ac adroddwyd hyn i'r staff ar y pryd.

Roedd un claf yn ddigon caredig i ddangos ei ystafell wely i ni a dywedodd wrthym mai ef a ddewisodd y lliwiau a'r papur wal yn ei ystafell wely. Roedd gan yr ystafell wely sengl a man storio ar gyfer eiddo personol. Ar sail ein harsylwadau, roedd yn amlwg bod yr ystafell wely hon wedi cael ei phersonoli gan y claf a'i fod yn fodlon ar ei ystafell.

Gwelsom fod y paneli gwydr ar ddrysau'r ystafelloedd gwely ar agor ac nid oedd unrhyw fodd o reoli'r gosodiad hwn o tu mewn i'r ystafell, pe byddai'r claf yn dymuno gwneud hynny.

Roedd un ystafell wely yn cynnwys cyfleusterau en-suite tra oedd mynediad gan eraill at gyfleusterau toiled ac ystafell ymolchi a rennir. Gwnaethom nodi nad oedd y cawod yn hwylus i bobl anabl ac ni welwyd unrhyw larymau galw am nyrs yn yr ystafelloedd ymolchi na'r ystafelloedd gwely.

Roedd gan gleifion fynediad at fannau y tu allan a oedd yn lân ac wedi'u cynnal yn dda. Roedd gasibo pren yn cynnig cysgodfa a seddi. Gwelsom fod y ward yn lân ac yn rhydd rhag unrhyw aroglau amhleserus. Gwnaethom nodi bod rhai o'r drysau tân wedi'u cadw ar agor ac ni ddylai hyn ddigwydd. Hefyd, nid oedd digon o arwyddion ar y drysau, yn benodol er mwyn dynodi drysau tân, ac mae angen adolygu hyn i sicrhau bod arwyddion clir yn cael eu dangos ar ddrysau ac ati.

Ward Clwyd

Mae Ward Clwyd yn ward adsefydlu dan glo, a leolir yn syth i fyny'r grisiau o Ward Adferiad. Roedd y ward yn cynnwys 12 ystafell wely sengl, a phob un o'r rhain yn cynnwys toiled a sinc yn yr ystafell. Roedd ystafelloedd ymolchi a oedd yn cynnwys bath a chawod ar gael ar gyfer y grŵp cleifion.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom ystafell wely wag. Roedd yr ystafell wedi'i hadnewyddu i safon uchel ac roedd yn cynnwys digon o ddodrefn i gleifion gadw eu heiddo personol. Roedd yr ystafell yn cynnwys gwely sengl, cist dillad, cwpwrdd dillad a chadair. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw system larwm galw am nyrs ac nid oedd y cleifion yn gallu rheoli'r panel gwydr o'r tu mewn i'w hystafelloedd. Nodwyd y broblem hon yn ein hymweliad ym mis Hydref 2014 a siomedig oedd gweld na roddwyd sylw i hyn ar adeg y gwaith adnewyddu ac ailwampio.

Roedd gan gleifion fynediad at lolfa fawr a oedd yn cynnwys deg cadair freichiau. Roedd y teledu ynghlwm wrth y wal a rhai lluniau hefyd. Roedd y lolfa wedi'i haddurno i safon uchel ac yn olau oherwydd y ffenestri yn yr ystafell.

Roedd yr ystafell fwyta yn fodern ac yn cynnwys tri bwth gyda byrddau ar un ochr o'r ystafell a byrddau a chadeiriau ar wahân ar yr ochr arall. Roedd cyfleusterau i baratoi diodydd poeth ac oer a thwll yn y wal lle y gweinir prydau o fwyd.

Roedd y ward yn cynnwys campfa a rannwyd gyda Ward Adferiad ac ynddi beiriant rhedeg, beic ymarfer corff, peiriant camu a phwysau codi. Dywedodd y staff wrthym y byddant yn cynorthwyo cleifion i ddefnyddio'r gampfa a'r offer.

Roedd yr ystafell sinema yn gyfleuster a rennir gyda Ward Adferiad ac yn cynnwys sgrin fawr a seddi cyfforddus er mwyn i gleifion allu mwynhau gwyllo ffilmiau.

Roedd yr ystafell weithgareddau yn cynnwys dau gyfrifiadur yn ogystal â chypyrddau a oedd yn storio deunyddiau celf a chrefft. Roedd gan yr ystafell fwrdd mawr yn ei chanol a seddi o'i hamgylch. Defnyddiwyd yr ystafell ar gyfer gweithgareddau ac er mwyn cynnal cyfarfod i'r cleifion bob bore.

Roedd y gegin adsefydlu yn cynnwys yr holl offer tŷ sydd eu hangen er mwyn i'r grŵp cleifion allu paratoi a choginio eu bwyd eu hunain. Roedd y gegin hefyd yn cynnwys bwrdd a phedair cadair. Ar adeg ein hymweliad, roedd yr oergell yn cynnwys nifer o gynhyrchion a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad olaf bwyta a gwnaethom hysbysu'r staff ynglŷn â hyn.

Roedd yr hysbysfyrddau'n arddangos amrywiaeth o wybodaeth i gleifion, gan gynnwys gweithgareddau, eiriolaeth a thripiâu'r dyfodol. Gellid gweld y bwrdd gwybodaeth i gleifion, sydd wedi'i leoli yng nghorlan y nyrsys, o'r coridor yn y ward, ac mae'n hanfodol bod yr wybodaeth hon yn aros yn gyfrinachol ac yn gudd pan nad yw'n cael ei defnyddio.

Gwnaethom nodi bod y ward yn lân a gwelsom rai staff yn gwneud rhai dyletswyddau glanhau yn ystod ein hymweliad gyda'r nos. Fel yn Ward Adferiad, gwnaethom nodi rhai drysau tân a oedd wedi'u cadw ar agor a drysau heb arwyddion priodol.

Roedd y ward wedi elwa o ganlyniad i'r rhaglen ailwampio, ond roedd rhai marciau ar y waliau a rhwygau bach ar rai o'r seddi a'r papur wal. Gwnaethom nodi hefyd bod drysau yn cau ar glep a'r sŵn a oedd yn dod o ganlyniad i hyn. Mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu cywiro cyn gynted â phosibl.

Ward Glaslyn

Mae Glaslyn yn ward diogelwch isel sydd ar wahân i wardiau Adferiad a Chlwyd. Mae gan y ward 12 ystafell wely en-suite, a rhai ohonynt wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf a rhai ar y llawr daear.

Roedd y rhan fwyaf o'r mannau cleifion wedi'u lleoli ar y llawr daear. Roedd yr ystafell weithgareddau yn arddangos llawer o waith celf cleifion a ffotograffau o deithiau allan. Roedd yr ystafell yn cynnwys llyfrau a deunyddiau celf a chrefft. Roedd gan yr ystafell fwyta seddi gosodedig ac roedd digon o seddi i ganiatáu i'r holl gleifion fwyta gyda'i gilydd. Roedd twll yn y wal a chegin yn caniatáu staff i baratoi a chynnig diodydd poeth ac oer i'r grŵp cleifion yn ogystal â gweini prydau a byrbrydau. Roedd y lolfa yn cynnwys teledu a seddi i gleifion ac allanfa i'r man yn yr awyr agored. Ar adeg ein hymweliad, roedd y man yn yr awyr agored yn llawn bonion sigaréts a oedd yn gwneud iddo edrych yn fudr. Roedd dwy fainc bren yn cynnig seddi ac roedd golau y tu allan nad oedd yn gweithio.

Roedd ystafelloedd gwely i gleifion, lolfa, a swyddfeydd staff i fyny'r grisiau. Roedd dau ffôn talu sy'n gweithio a nifer o hysbysfyrddau i gleifion i'w gweld drwy'r ward gyfan; roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am eiriolaeth ac iechyd a lles, gan gynnwys bwyta'n iach a gweithgareddau.

Camau gofynnol

Mae angen adolygu'r drysau drwy'r holl ysbyty i sicrhau bod y rhai sy'n cau ar glep yn cael eu haddasu i gael gwared ar y sŵn.

Mae angen adolygu amgylchedd y ward i sicrhau bod gwaith trwsio yn cael ei wneud ar rwbiadau a marciau er mwyn cynnal a chadw safonau uchel yr ysbyty.

Mae angen edrych ar sut y mae'r paneli gwydr wedi'u rhagosod er mwyn sicrhau nad yw urddas a phreifatrwydd y claf yn cael eu rhwystro.

Mae angen edrych ar yr holl baneli gwydr i sicrhau bod cleifion yn gallu eu rheoli o'r tu mewn i'w hystafelloedd gwely er mwyn cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Mae angen adolygu'r arwyddion ledled yr holl wardiau i sicrhau bod arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn glir ar ddrysau tân ac ati.

Ni ddylai drysau tân gael eu cadw ar agor.

Mae angen adolygu'r bwrdd gwybodaeth i gleifion ar Ward Clwyd i sicrhau na fydd cleifion eraill nac ymwelwyr yn gallu ei weld o'r corridor sy'n gyfagos i'r swyddfa.

Mae angen glanhau'n drwyadl a chael gwared ar y bonion sigarêts sy'n llygru'r man yn yr awyr agored ar Ward Glaslyn.

Mae angen rhoi sylw i'r goleuadau allanol ar Ward Glaslyn i sicrhau bod pob un ohonynt yn gweithio ac yn darparu'r golau sydd ei angen yn ystod y nosweithiau a'r nos.

Diogelwch

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, a dywedodd y rhan fwyaf o'r staff nad oedd ganddynt unrhyw bryderon o ran diogelwch. Gwnaethom arsylwi ar staff yn gwisgo larymau personol ac roedd pob un o'r ystafelloedd wely ar Ward Glaslyn yn cynnwys larwm galw am nyrs yn yr ystafell.

Gwnaeth ein hymweliad blaenorol ym mis Hydref 2014 nodi nad oedd unrhyw system larwm galw am nyrs yn yr ystafelloedd gwely na'r ystafelloedd ymolchi ar wardiau Adferiad a Chlwyd, ac yn ystod yr ymweliad hwn gwnaethom nodi nad oedd hon wedi cael ei gosod. Er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion, mae angen system larwm galw am nyrs yn yr ystafelloedd ymolchi a'r ystafelloedd gwely fel y gellir canu larwm yn rhwydd mewn argyfwng.

Roedd nifer yr aelodau staff a chymysgedd sgiliau'r staff yn ystod ein hymweliad yn ddigonol i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal a bod therapïau yn cael eu darparu. Ni wnaeth yr un o'r aelodau staff y buom yn siarad â nhw leisio pryderon penodol o ran niferoedd y staff neu sgiliau/gwybodaeth y staff.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom nodi nifer o eitemau yn oergell y gegin adsefydlu ar Ward Clwyd a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad. Gwnaethom

hysbysu'r staff ar y pryd ynghylch yr eitemau hyn a gwnaethant drefnu i'w taflu. Mae angen cyflwyno gwiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl eitemau a gedwir yn yr oergell yn ddiogel i'r cleifion eu defnyddio a'u bwyta.

Pan gyrhaeddom ni New Hall ar ein noson gyntaf (16 Mai 2016), dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw un person â chyfrifoldeb cyffredinol dros yr ysbyty. Gwnaeth ein hymweliad â Ward Glaslyn ar yr un noson nodi bod dwy nyrs gofrestredig ar ddyletswydd; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y naill un ohonynt yn gyfrifol yn gyffredinol am y ward honno. Mae angen penodi unigolyn dynodedig sydd â chyfrifoldeb dros ward a hefyd mae angen penodi unigolyn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros yr ysbyty.

Camau gofynnol

Mae angen system larwm galw am nyrs er mwyn sicrhau diogelwch cleifion, yn yr ystafelloedd ymolchi a'r ystafelloedd gwely ar wardiau Adferiad a Chlwyd yn benodol, fel y gellir canu larwm yn rhwydd mewn argyfwng.

Yn y cyfamser, ac wrth i'r darparwr cofrestredig gomisiynu system galw am nyrs, mae angen adolygu diogelwch y cleifion, yn benodol yn y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi ar wardiau Adferiad a Chlwyd, er mwyn penderfynu ar sut y gellir darparu cymorth pan nad oes system larwm galw am nyrs ar gael.

Mae angen cyflwyno gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod yr holl eitemau bwyd sy'n cael eu storio yn y ceginau adsefydlu o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w defnyddio a'u bwyta.

Mae angen penodi unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros y ward ac mae angen penodi unigolyn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros yr ysbyty cyfan yn ystod y nos/nosweithiau/penwythnosau.

Y tîm amlddisgyblaethol

Roedd tîm amlddisgyblaethol ar waith, a oedd yn cynnwys y clinigydd cyfrifol, seicolegydd, therapydd galwedigaethol, staff nyrsio, a gweithiwr cymdeithasol. Roedd gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi mynychu cyfarfodydd y tîm ac roedd croeso iddynt wneud hyn. Roedd yr holl staff y buom yn siarad â nhw yn gadarnhaol iawn ynglŷn â chyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, gan ddweud eu bod yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol.

Mae cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal bob wythnos a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, bod eu barn broffesiynol yn cael ei gwerthfawrogi, a bod trafodaethau yn canolbwyntio ar y claf.

Mae cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol yn cael eu cynnal rhwng pob sifft er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o unrhyw faterion pwysig yn gysylltiedig â gofal cleifion.

Dywedodd staff eu bod yn mynychu cyfarfodydd staff rheolaidd yn ogystal â rhai y tîm amlddisgyblaethol a'r cyfarfodydd trosglwyddo ar ddiwedd pob sifft.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, a oedd yn cynnwys digon o le iddynt storio ac arddangos eu heiddo eu hunain. Roedd gan gleifion fynediad i doiledau a chyfleusterau cawod/bath wedi'u rhannu ac roedd pob claf y buom yn siarad â nhw yn teimlo bod eu preifatrwydd ac urddas yn cael eu parchu yn yr ysbyty.

Roedd ffôn talu ger prif fynedfa'r ysbyty a gallai cleifion hefyd ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain er mwyn cadw cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Dywedodd yr holl gleifion y buom yn siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, ac ni wnaeth yr un o'r staff y buom yn siarad â nhw leisio pryderon ynglŷn â phreifatrwydd ac urddas.

Gofal iechyd cyffredinol

Cynhaliwyd adolygiad gennym o'r ystafell glinig ar Ward Glaslyn a gwnaethom nodi nifer o gofnodion gweinyddu cyffuriau i gleifion a labeli ar focsys meddyginiaeth unigol nad oeddent yn cyfateb. Mae angen adolygu hyn i sicrhau bod cofnodion gweinyddu meddyginiaeth i gleifion a bocsys meddyginiaeth unigol yn dangos yr wybodaeth adnabod gywir.

Mae'r ysbyty yn defnyddio gwasanaeth fferyllfa allanol i ddarparu archwiliadau fferyllol rheolaidd ar gyfer pob un o'r tair ward, a oedd yn arfer da.

Nid oedd y ffurflenni arsylwi ac ymgysylltu a adolygwyd ar Ward Glaslyn yn cael eu llofnodi'n rheolaidd gan y nyrs â gofal. Mae'n rhaid sefydlu systemau i sicrhau bod gwaith papur yn cael ei gwblhau'n briodol.

Oherwydd anghenion iechyd corfforol rhai cleifion a'r bylchau a nodwyd gennym yng nghynlluniau gofal cleifion o ran gofal iechyd corfforol, mae'n ofynnol bod nyrs gofrestredig yn cael ei phenodi i sicrhau bod anghenion iechyd corfforol yn cael sylw priodol. (Gweler yr adran 'Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl' i gael sylwadau penodol ynglŷn â gofal iechyd corfforol.)

Camau gofynnol

Mae angen adolygu cofnodion gweinyddu cleifion a'r bocsys meddyginiaeth unigol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cyfateb.

Mae angen adolygu'r ffurflenni arsylwi ac ymgysylltu ar Ward Glaslyn i sicrhau eu bod nhw'n cael eu cymeradwyo'n rheolaidd gan y nyrs â gofal.

Mae angen monitro anghenion iechyd corfforol y grŵp cleifion yn fanwl ac mae angen penodi nyrs gofrestredig er mwyn sicrhau bod anghenion iechyd corfforol cleifion yn derbyn sylw priodol.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Roedd gan New Hall amrywiaeth o gyfleusterau a oedd yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a therapïau i gleifion yn yr ysbyty, gan gynnwys campfa, ystafell sinema, ceginoedd therapi, tiroedd eang, ac ystafelloedd celf a chrefft. Yn ogystal â'r cyfleusterau ar y safle, roedd cleifion yn cael eu hysgogi ac yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o weithgareddau cymunedol, a oedd yn cynnwys lleoliadau gwirfoddol a mynychu'r coleg.

Roedd gan yr ysbyty wasanaeth cymorth therapi galwedigaethol penodol ar gyfer yr holl wardiau, gan gynnwys y cydlynwyr gweithgareddau. Cynhelir cyfarfod cleifion dyddiol yn y bore ar draws yr holl wardiau. Byddai'r cyfarfodydd yn canfod yr hyn a oedd yn digwydd y diwrnod hwnnw ac unrhyw ddymuniadau a allai fod gan gleifion.

Gwnaethom arsylwi amserlenni gweithgareddau a hysbysiadau a oedd yn cael eu harddangos ar y wardiau. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn meddu ar amserlenni unigol eu hunain a oedd yn cael eu hadolygu bob wythnos. Roedd yr amserlen gyffredinol o weithgareddau yn cael ei hadolygu bob tri mis neu yn ôl yr angen, a seiliwyd hyn ar adborth gan gleifion. Mae'r therapydd galwedigaethol yn cynnal amrywiaeth o asesiadau, gan gynnwys asesiadau domestig a chegin ac offeryn sgrinio'r model o weithgareddau dynol (MOHOST). Hefyd, llenwir 'Rhestr Wirio o Fy Niddordebau' bob chwe mis er mwyn sicrhau bod gweithgareddau yn cyd-fynd â'r cleifion.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom wahoddiad gan rai cleifion i edrych ar y gwaith yr oeddent wedi'i wneud yn trawsnewid rhan o erddi'r ysbyty. Roedd y cleifion wedi creu llwybr gardd a gwelyau blodau uchel gyda blodau a llysiau a oedd yn tyfu ynddynt. Roedd cwt ieir a thir caeedig ar gyfer cwningod wedi cael eu hadeiladu gan gleifion, a oedd hefyd yn gyfrifol am eu gofal a'u trefn bwyta. Roedd yr ymdrechion a wnaed gan gleifion wrth weddnewid y man yn nodedig ac roedd cynlluniau i wneud mwy o waith ar y man.

Roedd amrywiaeth o wasanaethau a therapïau seicolegol yn cael eu darparu i'r grŵp cleifion, a oedd yn cynnwys sesiynau grŵp a sesiynau unigol. Mae'r

seicolegwyr yn cynnal eu hasesiadau eu hunain, sy'n cyfrannu at gynlluniau gofal a thriniaeth cyffredinol pob claf.

Roedd gweithiwr cymdeithasol yn cynnig cefnogaeth a chymorth i gleifion ynglŷn ag amrywiaeth o faterion, ac roedd eiriolwr yn bresennol yn rheolaidd, yr oedd y staff a chleifion yn uchel eu clod ohono. Yn ogystal â'r posteri a ddangoswyd ar y wardiau, ymwelodd yr eiriolwr â'r ysbyty bob wythnos hefyd. Yn ogystal â'r sesiynau un i un gyda'r eiriolwr, roedd fforwm ar waith lle byddai'r eiriolwr yn casglu barn ac adborth gan y grŵp cleifion a dychwelyd yr adborth hwn i reolwyr yr ysbyty er mwyn iddynt roi sylw iddo.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt ddigon o bethau i'w gwneud, ac y gofynnwyd iddynt beth oedd yr hyn yr hoffent ei wneud. Roedd cyfleusterau yn cael eu darparu i alluogi cleifion i olchi eu dillad eu hunain ac roedd y staff yn trefnu iddynt gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd eraill megis meddyg teulu, deintydd ac optegydd. Roedd Clinig Dynion Iach ar gael ac yn cael ei redeg gan staff.

Roedd cleifion yn cael eu hannog i gysylltu â'u teuluoedd a'u ffrindiau ac roedd gan gleifion fynediad at ffôn talu. Roedd system ar gyfer defnyddio ffonau symudol ar waith ar gyfer rhai cleifion a oedd wedi cael asesiad risg.

Bwyd a maeth

Roedd adborth gan gleifion a staff yn gadarnhaol yn bennaf o ran y bwyd a ddarperir yn yr ysbyty, ac roedd arsylwi'r staff a'r cleifion yn bwyta gyda'i gilydd yn ystod eu hawr ginio yn ddymunol. Roedd y cleifion yn derbyn tri pryd o fwyd bob dydd, gan gynnwys brecwast, cinio a the. Roedd swper ar gael hefyd i'r rhai a oedd yn dymuno ei dderbyn. Mae'r bwydlenni yn cael eu newid bob pedair wythnos ac roedd y bwyd yn cael ei baratoi a'i goginio ar y safle.

Roedd cleifion yn cael hyd at bedwar dewis ar gyfer cinio a the, a oedd yn cynnwys dewis llysieuol. Roedd anghenion unrhyw glaf a chanddo diet penodol yn cael eu diwallu.

Roedd amrywiaeth, ansawdd a meintiau dogn y bwyd a oedd yn cael ei weini yn cael eu canmol gan y cleifion a'r staff fel ei gilydd. Roedd cleifion yn gallu prynu a storio eu byrbrydau eu hunain ac roedd prydau cludfwyd yn cael eu trefnu bob mis.

Nid oedd yr hawl i gael diodydd a byrbrydau y tu allan i'r amseroedd bwyd penodol yn broblem, ac roedd gan gleifion fynediad at ardaloedd cegin i wneud diodydd poeth ac oer. Roedd ffrwythau ar gael yn rhwydd, yn ogystal â bara ar gyfer tost, grawnfwydydd, ac iogyrtiau.

Roedd y cleifion yn cael eu pwyso'n rheolaidd fel rhan o'r Clinig Dynion Iach a threfnir mynediad at ddietegydd drwy feddyg teulu a/neu ysbyty pan fo angen.

Dywedodd y cleifion y buom yn siarad â nhw eu bod yn deall y broses ar gyfer gwneud sylwadau i'r staff arlwyo o ran y bwyd.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd adolygiad o ddeg ffeil staff a gwnaethom nodi pa mor gyson oedd yr wybodaeth yn y ffeiliau. Roedd yr holl ffeiliau a adolygwyd yn cynnwys ffurflen gais, disgrifiad swydd, dau eirida, contract cyflogaeth, nodiadau cyfweliad, holiaduron meddygol a chofnodion brechiadau/imiwneiddio.

Roedd system ar waith i gofnodi a monitro gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwnaethom nodi a chymeradwyo'r arferion da a fabwysiadwyd gan yr ysbyty i adnewyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd ar gyfer yr holl staff. Mae'r arfer hwn yn sicrhau bod gwiriad annibynnol gan yr ysbyty sy'n helpu i ehangu gallu'r sefydliad i asesu gonestrwydd a chymeriad unigolyn. Roedd yr holl ffeiliau a adolygwyd gennym yn cynnwys gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd gan yr ysbyty system ar waith a oedd yn rheoli ac yn monitro cofrestriadau proffesiynol. Roedd yr wybodaeth a adolygwyd gennym yn cynnwys enw'r aelod o staff, y rhif adnabod personol/rhif cofrestru, y dyddiad cyhoeddi, a'r dyddiad dod i ben. Roedd pob un o'r staff ar y daflen wedi'u cofrestru'n gyfredol.

Roedd goruchwyliaeth staff yn cael ei chynnal yn rheolaidd a braf oedd nodi bod y staff y buom yn siarad â nhw yn dweud bod eu sgysiau yn ystyrlon ac yn cael eu cofnodi. Disgwylir i'r staff gael eu goruchwyllo bob mis yn ôl y safon ddisgwyliedig, ond dywedwyd wrthym y gallech gael goruchwyliaeth pan y bydd arnoch ei hangen. Yn ogystal â'r oruchwyliaeth reolaethol a chlinigol, roedd sesiynau myfyrio ar arfer ar gael hefyd i'r staff pe byddent yn dymuno cymryd rhan.

Roedd gan New Hall system ar waith lle'r oedd yr holl waith goruchwyllo staff yn cael ei gofnodi a'i fonitro. Roedd y daenlen a dderbyniwyd gennym yn ystod ein hymweliad yn dangos bod pob un aelod o'r staff wedi derbyn o leiaf un sesiwn o oruchwyliaeth yn 2016. Roedd y trafodaethau â'r staff a'r systemau a oedd ar waith i gofnodi'r gwaith goruchwyllo yn dangos pa mor werthfawr yw'r oruchwyliaeth ar gyfer yr ysbyty ac amlygwyd hyn drwy safbwyntiau ac adborth cadarnhaol y staff.

Roedd y staff yn derbyn arfarniadau blynyddol a chadarnhawyd hyn gan yr holl staff y buom yn siarad â nhw, a ddywedodd eu bod nhw wedi derbyn arfarniad yn y 12 mis diwethaf. Roedd gan New Hall system ar waith i gofnodi a monitro arfarniadau staff, a oedd yn dangos bod arfarniadau cyfredol ar waith ar gyfer yr holl aelodau staff.

Roedd rhaglen hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer yr holl staff ac roedd yr ystadegau a roddwyd yn dangos cyfradd gydymffurfio gyffredinol o 94%. Dywedodd y staff wrthym fod cyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant allanol pe byddai angen.

Ar adeg ein hymweliad, roedd tair ffynhonnell o wybodaeth a oedd yn cynnwys y dyddiadau pan gwblhawyd hyfforddiant. Roedd tystysgrifau a chofnod hyfforddiant unigol, a oedd yn cynnwys rhestr o'r cyrsiau a gyflawnwyd a'r dyddiad cwblhau, o fewn y ffeiliau staff unigol. Yn ogystal â'r ffynonellau hyn, roedd yr ysbyty yn defnyddio data o'i gronfa ddata, sef ei gofnod swyddogol. Yn ystod ein hadolygiad o hyfforddiant staff, gwnaethom nodi dyddiadau nad oeddent yn gyson â phob ffynhonnell. Roedd un ffeil a adolygwyd gennym yn datgan bod gweithiwr wedi cwblhau ei hyfforddiant Rheoli Ymddygiad Ymosodol Gwirioneddol neu Bosibl ym mis Ionawr 2016 (yn ôl y dystysgrif a'r cofnod hyfforddiant unigol), ond roedd y daenlen hyfforddiant yn dweud mis Hydref 2015. Er ei bod hi'n galonogol gweld bod cofnodion cynhwysfawr yn cael eu cadw, mae'n angenrheidiol bod yr holl ddata yn cyfateb i bob ffynhonnell sy'n cael ei chadw ac mae'n rhaid rhoi rhywfaint o ystyriaeth o ran sut i sicrhau bod hyn yn cael ei gadw'n barhaus.

Hefyd, roedd gan yr hyfforddiant Rheoli Ymddygiad Ymosodol Gwirioneddol neu Bosibl gyfradd gydymffurfio o 86%, ac roedd hyfforddiant rhai staff wedi dod i ben yn 2015 ac un yn 2014. Mae angen adolygu'r ystadegau hyfforddiant i sicrhau bod unrhyw aelod o staff â hyfforddiant sydd wedi dod i ben yn cwblhau hwn cyn gynted â phosibl.

Gwnaethom nodi nyrs gofrestredig nad oedd ganddi ddigon o wybodaeth ynglŷn â lefelau arsylwi cleifion na pholisïau wardiau. Mae'n hanfodol bod nyrsys cofrestredig yn adnabod y grŵp cleifion ac yn deall y polisïau yn ddigon manwl.

Cadarnhaodd trafodaethau â'r staff fod morâl yn dda iawn ymhlith y tîm a thynnwyd ein sylw at sylwadau cadarnhaol o ran y gwaith tîm, gan gynnwys y ffaith bod y rheolwyr yn bresennol, ar gael, ac yn gwrando ar y staff.

Camau gofynnol

Mae angen adolygu nifer y ffynonellau a ddefnyddir i gofnodi data hyfforddiant a gwblhawyd er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn cyfateb.

Mae angen adolygu hyfforddiant, yn benodol hyfforddiant Rheoli Ymddygiad Ymosodol Gwirioneddol neu Bosibl, i sicrhau bod yr holl aelodau staff â hyfforddiant sydd wedi dod i ben yn derbyn yr hyfforddiant diweddaraf cyn gynted â phosibl.

Mae angen i'r holl nyrsys cofrestredig adnabod y grŵp cleifion yn ddigon manwl.

Llywodraethu

Roedd gan yr ysbyty nifer o archwiliadau a oedd ar waith i hysbysu'r tîm rheoli ynghylch pa mor effeithiol oedd y gwasanaeth a pha agweddau yr oedd angen eu gwella. Fodd bynnag, er bod archwiliadau lleol ar waith, roedd diffyg o hyd o ran rhoi system lywodraethu sefydliadol gadarn ar waith i wella canlyniadau ar gyfer cleifion ac arferion proffesiynol ac ansawdd cyffredinol y gwasanaethau a ddarperir.

Cam gofynnol

Mae angen gwella systemau a phrosesau llywodraethu ar lefel sefydliadol i sicrhau bod lefelau cymwys o wybodaeth yn cael eu rhoi i hysbysu'r darparwr cofrestredig ynghylch canlyniadau cleifion ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pump o'r cleifion a oedd yn cael eu cadw ar dri o'r wardiau yn yr ysbyty ar adeg ein hymweliad. Gwnaed yr arsylwadau canlynol:

- Tystiolaeth drwyadl a threfnus a oedd wedi'i chynnwys yn y nodiadau cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a gedwir yn y cofnodion meddygol a'r nodiadau achos cleifion
- Tystiolaeth o graffu/archwilio yn y cofnodion meddygol ac roedd tystiolaeth amlwg bod y ffeiliau yn dangos statws cyfreithiol cyfredol cleifion a gwybodaeth gyfredol
- Yr offeryn/rhestr wirio ddefnyddiol ac arloesol a ddatblygwyd gan gofnodion meddygol ar gyfer gwrandawiadau rheolwyr ysbyty, gan gynnwys pwy sy'n mynychu, yr wybodaeth a ddarperir, a'r canlyniad i gleifion
- Tystiolaeth dda bod y Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi ei gweithredu'n briodol, gan ddangos asesiad ymarferol o allu, a ddefnyddir pan nad yw'r claf yn destun i CO2/3 cydsynio i driniaeth, e.e. pan nad yw'n glaf ffurfiol
- Roedd yr amseroedd gofyn ac ymateb ar gyfer Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn yn amrywiol; fodd bynnag, ar gyfer un claf Adran 62, penderfynwyd parhau â'r driniaeth wrth aros am y Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer da
- Methiant yn hen bapurau cadw cyfreithiol Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy i ddileu gwybodaeth benodol yn Adran B, yr adran Perthynas Agosaf, o'r ffurflen HO6 na chafodd ei ganfod gan y cofnodion meddygol.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer pump o gleifion yn Ysbyty New Hall a gwneud yr arsylwadau canlynol:

- Ward Glaslyn
 - Nodwyd risg ar lefel 'gymedrol' ac roedd yn aneglur sut y rhoddwyd y sgôr hon heb ddefnyddio offer sy'n seiliedig ar ymchwil. Dywedwyd wrthym fod SMART wedi cael ei brynu
 - Diffyg manylder yng nghofnodion y tîm amlddisgyblaethol a ysgrifennwyd â llaw a diffyg llofnodion ar nodiadau'r tîm amlddisgyblaethol a ysgrifennwyd â llaw
- Ward Adferiad
 - Nid oedd cynllun gofal mewn cysylltiad â diabetes wedi cael ei lunio er ei fod wedi'i nodi'n glir fel risg. Cynhaliwyd y prawf glwcos gwaed diwethaf ym mis Rhagfyr 2015
 - Mae Cynllun Gofal 5 yn crybwyll diabetes, ond ni ddatblygwyd unrhyw gynllun gofal/strategaeth ar gyfer hwn
 - Dim ond ychydig o dystiolaeth ddogfennol oedd i'w gweld i ddangos bod y drefn feddyginiaeth wedi cael ei thrafod â'r cleifion ar y ddau gynllun gofal a thriniaeth a adolygwyd gennym
- Cyfeiriwch at yr adran 'Gofal iechyd cyffredinol' ar gyfer ein gofynion ynghylch anghenion gofal iechyd corfforol y grŵp cleifion.

(Yn ystod y cyfarfod adborth, rhoddwyd llythrennau cyntaf enwau'r cleifion i'r ysbyty er mwyn sicrhau y gellid diweddarau/diwygio'r cofnodion.)

Camau gofynnol

Mae angen rhoi sylw i'r problemau a nodwyd, yn benodol y defnydd o ddull sy'n seiliedig ar ymchwil, yr angen i sicrhau bod digon o fanylder yn nodiadau ysgrifenedig a llofnodion y tîm amlddisgyblaethol, a bod dystiolaeth ddogfennol bod trefn feddyginiaeth cleifion wedi ei thrafod â nhw a bod cynlluniau gofal priodol wedi cael eu datblygu ar gyfer diabetes a meysydd eraill fel y nodwyd.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Ysbyty New Hall gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty New Hall yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar gyfer iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Darparwr: Mental Healthcare UK

Ysbyty: New Hall

Dyddiadau'r arolygiad: 16 – 18 Mai 2016

Rhif y dudalen	Cam gofynnol	Rheoliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
12	Mae angen adolygu'r drysau drwy'r ysbyty cyfan er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n clepian yn cael eu haddasu i gael gwared ar y sŵn.	26 (2) (a) (b)	Bydd y tîm ystadau yn adolygu'r holl ddrysau i sicrhau bod y mecanweithiau ar y drysau yn lleihau'r sŵn a achosir wrth iddynt glepian.	Rheolwr yr Ysbyty a'r Tîm Ystadau	Cwblhawyd
12	Mae angen adolygu amgylchedd y ward i sicrhau bod gwaith trwsio yn cael ei wneud ar rwbiadau a marciau er mwyn cynnal a chadw safonau uchel yr ysbyty.	26 (2) (a) (b)	Bydd y tîm ystadau'n adolygu unrhyw anghenion parhaus ar gyfer cynnal a chadw ac addurno.	Rheolwr yr Ysbyty a'r Tîm Ystadau	Yn barhaus

12	Mae angen edrych ar sut y mae'r paneli gwydr wedi'u rhagosod er mwyn sicrhau nad yw urddas a phreifatrwydd y claf yn cael eu rhwystro.	18 (1) (a)	Adolygu sut mae'r paneli gwydr wedi'u rhagosod ar ddrysau ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn hyrwyddo diogelwch ac urddas cleifion.	Pennaeth Ystadau	Un mis
12	Mae angen adolygu'r holl baneli gwydr i sicrhau bod cleifion yn gallu eu rheoli o fewn eu hystafelloedd gwely er mwyn cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.	18 (1) (a)	Adolygu'r paneli gwydr yn ystafelloedd gwely'r cleifion, er mwyn adolygu'r posibilrwydd y bydd y cleifion yn gallu rheoli'r mecanwaith cau o'r tu mewn.	Pennaeth Ystadau	Un mis
12	Mae angen adolygu'r arwyddion ar draws yr holl wardiau er mwyn sicrhau bod arwyddion priodol yn cael eu dangos yn glir ar ddrysau tân ac ati.	26 (2) (a)	Bydd yr adran ystadau yn sicrhau bod yr holl arwyddion priodol yn cael eu dangos ar ddrysau tân.	Adran Ystadau	Cwblhawyd
13	Ni ddylai'r drysau tân gael eu cadw ar agor.	26 (4) (a)	Ni ddylai'r un aelod o staff gadw'r drysau tân ar agor.	Pob aelod o staff	Cwblhawyd
13	Mae angen adolygu'r bwrdd gwybodaeth i gleifion ar Ward	15 (1) (b) 18 (1) (a)	Bydd bleindiau yn cael eu gosod ar y bwrdd gwybodaeth i gleifion	Staff Ystadau / Wardiau	Un wythnos

	Clwyd i sicrhau na fydd cleifion eraill nac ymwelwyr yn gallu ei weld o'r corridor sy'n gyfagos i'r swyddfa.		er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol.		
13	Mae angen glanhau'n drwyadl a chael gwared ar y bonion sigaréts sydd dros y man awyr agored ar Ward Glaslyn.	26 (2) (a) (b)	Bydd y mannau ysmegu dynodedig yn cael eu glanhau yn rheolaidd.	Rheolwr Gwasanaeth / Uwch Nyrsys Pob aelod o staff ar Ward Glaslyn	Cwblhawyd
13	Mae angen rhoi sylw i'r goleuadau allanol ar ward Glaslyn i sicrhau bod pob un ohonynt yn gweithio ac yn darparu'r golau sydd ei angen yn ystod y nosweithiau a'r nos.	26 (2) (a)	Bydd yr holl oleuadau allanol yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd, a sicrheir eu bod yn gweithio'n iawn.	Staff Ystadau a'r Wardiau	Un wythnos
14	Mae angen system larwm galw am nyrs er mwyn sicrhau diogelwch cleifion, yn yr ystafelloedd ymolchi a'r ystafelloedd gwely ar wardiau Adferiad a Chlwyd yn benodol, fel y gellir canu larwm yn rhwydd mewn argyfwng.	26 (2) (a)	Adolygwyd ac archebwyd system larwm galw am nyrs newydd. Mae adolygiad o'r safle wedi ei gwblhau, ac rydym yn aros i'r system gael ei danfon a'i gosod.	Pennaeth Ystadau	Un mis

14	Yn y cyfamser, ac wrth i'r darparwr cofrestredig gomisiynu system galw am nyrs, mae angen adolygu diogelwch y cleifion, yn benodol yn y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi ar wardiau Adferiad a Chlwyd, er mwyn penderfynu ar sut y gellir darparu cymorth pan nad oes system larwm galw am nyrs ar gael.	26 (2) (a)	Bydd rheolwyr y gwasanaeth a staff y ward yn sicrhau bod staff ar gael bob amser i gleifion sydd wedi'u lleoli mewn mannau arunig. Bydd arsylwi parthol neu arsylwadau manylach yn cael eu gweithredu os oes gofyn clinigol ar eu cyfer.	Rheolwyr y Gwasanaeth	Cwblhawyd
14	Mae angen cyflwyno gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod yr holl eitemau bwyd sy'n cael eu storio yn y ceginau adsefydlu o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w defnyddio a'u bwyta.	26 (2) (a)	Bydd y therapydd galwedigaethol / cydlynwyr gweithgareddau a staff y ward yn monitro eitemau bwydwy yn y gegin adsefydlu ac yn cael gwared ar unrhyw eitemau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben.	Yr holl staff clinigol	Cwblhawyd
14	Mae angen penodi unigolyn dynodedig fel y person sydd â chyfrifoldeb dros un ward a hefyd mae angen penodi unigolyn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros yr ysbyty cyfan yn ystod y	20 (1) (a)	Bydd rheolwyr y gwasanaeth yn penodi'r nyrs a fydd yn gyfrifol yn ystod y nos a staff y dydd yn ystod cyfarfodydd rota bob bore dydd Llun. Os nad yw rheolwyr y gwasanaeth yn bresennol, bydd yr uwch-nyrsys yn goruchwyllo'r	Rheolwyr y Gwasanaeth ac Uwch-nyrsys	Cwblhawyd

	nos/nosweithiau/penwythnosau.		brose.		
15	Mae angen adolygu cofnodion gweinyddu cleifion a'r bocsys meddyginiaeth unigol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cyfateb.	15 (5) (a)	Bydd rheolwyr y gwasanaeth a'r uwch-nyrsys yn gwirio'r cofnodion gweinyddu a'r cofnodion meddyginiaeth er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cyfateb ac yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol. Bydd archwiliadau clinigol yn cael eu cwblhau bob wythnos. Bydd y fferyllfa Speeds yn cynnal archwiliadau ar hap ar gofnodion y cleifion.	Rheolwyr y Gwasanaeth ac Uwch-nyrsys Fferyllfa Speeds	Cwblhawyd
15	Mae angen adolygu'r ffurflenni arsylwi ac ymgysylltu ar Ward Glaslyn i sicrhau eu bod nhw'n cael eu cymeradwyo'n rheolaidd gan y nyrs â gofal.	15 (1) (a) (b)	Bydd rheolwr y gwasanaeth a'r uwch-nyrsys yn goruchwyllo'r broses o sicrhau bod yr holl ffurflenni arsylwi ac ymgysylltu wedi'u cymeradwyo gan: • Y staff sy'n arsylwi • Y nyrs â gofal • Uwch-nyrs / rheolwr y gwasanaeth.	Rheolwr y Gwasanaeth a'r Uwch-nyrs	Cwblhawyd

15	Mae angen monitro anghenion iechyd corfforol y grŵp cleifion yn fanwl ac mae angen penodi nyrs gofrestredig er mwyn sicrhau bod anghenion iechyd corfforol cleifion yn derbyn sylw priodol.	15 (1) (a) (b)	Mae MHC wedi darparu'r cyllid ar gyfer nyrs practis yn New Hall a'r ddau ysbyty arall. Mae'r adran recriwtio yn y broses o recriwtio nyrs addas a medrus i fodloni gofynion iechyd corfforol cleifion, ochr yn ochr â'r: • Meddyg teulu • Seiciatrydd ymgynghorol • Gwasanaethau lleol sylfaenol • Nyrsys yn New Hall.	Adran Recriwtio a Rheolwr yr Ysbyty	Tri mis
19	Mae angen adolygu nifer y ffynonellau a ddefnyddir i gofnodi data hyfforddiant a gwblhawyd er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn cyfateb.	9 (f)	Mae MHC wedi adolygu'r rhaglen a phroses hyfforddiant. Bydd yr adran hyfforddiant newydd yn goruchwyllo'r data a thystysgrifau hyfforddiant i sicrhau cysondeb o hyn ymlaen.	Yr Adran Gwasanaethau Pobl a Hyfforddiant	Dau fis
19	Mae angen adolygu hyfforddiant, yn benodol hyfforddiant Rheoli Ymddygiad Ymosodol Gwirioneddol neu	20 (1) (a)	Mae ystadegau hyfforddiant cyfredol New Hall yn ymwneud â Rheoli Ymddygiad Ymosodol Gwirioneddol neu Bosibl wedi	Linda Hull a'r Adran Hyfforddiant	Un mis

	Bosibl, i sicrhau bod yr holl aelodau staff â hyfforddiant sydd wedi dod i ben yn derbyn yr hyfforddiant diweddaraf cyn gynted â phosibl.		cael eu hadolygu, ac mae Linda Hull wedi cyflawni hyfforddiant yn ddiweddar ac wedi trefnu hyfforddiant ychwanegol ar y cyd â'r adran hyfforddiant. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod hyfforddiant Rheoli Ymddygiad Ymosodol Gwirioneddol neu Bosibl yr holl staff clinigol yn gyfredol.		
19	Mae angen i'r holl nyrsys cofrestredig adnabod y grŵp cleifion yn ddigon manwl.	20 (1) (a)	Bydd rheolwyr y gwasanaeth a'r uwch-nyrsys yn parhau i ddefnyddio sesiynau goruchwyllo, arfer myfyriol, ac adborth yn ymwneud ag arferion i sicrhau bod nyrsys yn gwbl gyfarwydd â'r grŵp cleifion yr ydynt yn ei gefnogi.	Rheolwyr y Gwasanaeth ac Uwch-nyrsys	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
20	Mae angen gwella systemau a phrosesau llywodraethu ar lefel sefydliadol i sicrhau bod lefelau cymwys o wybodaeth yn cael eu darparu i hysbysu'r darparwr cofrestredig ynghylch canlyniadau cleifion ac ansawdd y gwasanaethau a	9 (o) ac 19 (1) (a) (b)	Mae prosesau llywodraethu yn New Hall yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol fel yr amlinellwyd yn yr arolygiad gan AGIC. Mae'r camau yn ymwneud â phroses llywodraethu sefydliadol MHC sydd wrthi'n cael ei hadolygu, ac mae strwythur arfaethedig ar	Ryan Sandick	Ar unwaith

	ddarperir.		waith. Datblygwyd hyn ar y cyd gyda chyrff arolygu a chomisiynwyr allweddol.		
21	Mae angen rhoi sylw i'r problemau a nodwyd, yn benodol y defnydd o ddull sy'n seiliedig ar ymchwil, yr angen i sicrhau bod digon o fanylder yn nodiadau ysgrifenedig a llofnodion y tîm amlddisgyblaethol, a bod tystiolaeth ddogfennol bod trefn feddyginiaeth glaf wedi ei thrafod â nhw a bod cynlluniau gofal priodol yn cael eu datblygu ar gyfer diabetes a meysydd eraill fel y nodwyd.	15 (1) (a) (b) (c)	Fel y trafodwyd yn ystod yr arolygiad, mae New Hall wedi prynu'r dull ymchwil ac asesu risg a ddilyswyd 'START'. Darperir hyfforddiant yn y mis sydd ar ddod er mwyn sicrhau bod y staff yn gwbl ymwybodol ynglŷn â sut i'w ddefnyddio. Bydd nyrs practis yn cael ei chyflogi i fodloni gofynion iechyd corfforol cleifion, ochr yn ochr â'r tîm amlddisgyblaethol a'r practis meddyg teulu. Bydd staff y ward yn sicrhau bod eu cleifion yn derbyn taflenni gwybodaeth i gleifion ar ffurf hawdd ei darllen yn ôl y gofyn. Bydd gweithwyr proffesiynol y tîm amlddisgyblaethol yn sicrhau eu bod yn ysgrifennu cofnodion	Gweithwyr Proffesiynol Tîm Amlddisgyblaethol New Hall / Uwch-nyrsys a Rheolwyr y Gwasanaeth	Tri mis Tri mis Ar unwaith Ar unwaith

			cynhwysfawr a'u labelu gan ddefnyddio'r system cod lliw. Bydd y cynnwys ysgrifenedig yn cael ei archwilio fel rhan o archwiliad o'r ffeil glinigol.		
--	--	--	--	--	--